



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL

Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd Dydd Llun, 25 Ionawr 2021
am 10.00 am

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Bwrdd Rhianta Corfforaethol Aelodau oedd yn
bresennol:-:-**

Y Cyngorydd C Leyshon (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Hopkins Y Cyngorydd J Rosser
Y Cyngorydd R Yeo Y Cyngorydd E Griffiths

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Ms C Miles, Cyfreithiwr Gofal Plant
Ms A Lloyd, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant
Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant
Mr A Cope, Swyddog Datblygu - Gwasanaethau Maethu Rhanbarthol
Mr C Mann, Reviewing Team Manager
Ms K Webster, Deputy Principal Educational Psychologist

Eraill oedd yn bresennol

Ms C Urch (TGP)

21 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a manteisiodd ar y cyfle i groesawu Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant newydd ei benodi i'w gyfarfod ffurfiol cyntaf.

Cafodd ymddiheuriadau am absenoldeb eu derbyn oddi wrth Gyngorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Rees-Owen a J. James.

22 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

23 Cofnodion

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gafodd ei gynnal ar 1 Rhagfyr 2020 yn rhai cywir.

Rhannodd y Dirprwy Brif Seicolegydd Addysg Strategaeth Gwella Deilliannau Addysgol Plant sy'n Derbyng Gofal i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn dilyn cais gan yr Aelodau yn ystod cyfarfod o'r Bwrdd ar 30 Tachwedd 2020.

Cyfeiriodd y swyddog yr Aelodau at Adran 5 yr adroddiad, lle cafodd y data Cenedlaethol a Lleol ei amlinellu. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa y byddai data cyffredinol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2019 - 2020 yn cael ei ystyried yn ofalus oherwydd effaith cau ysgolion yn Nghymor yr Haf 2020 wrth ymateb i bandemig COVID-19. O ganlyniad i hyn, doedd dim modd cymharu'n uniongyrchol â blynyddoedd academaidd blaenorol.

Dangosodd y data fod presenoldeb Plant sy'n Derbyng Gofal wedi bod yn debyg ac yn well mewn rhai mathau penodol o ysgolion o'i gymharu â disgyblion nad ydyn nhw'n derbyn gofal. Roedd disgybl RhCT sy'n derbyn gofal 3 gwaith yn fwy tebygol o gael ei wahardd am dymor penodol na'i gyfoedion prif ffrwd nad ydyn nhw'n derbyn gofal.

Roedd yr aelodau'n falch o nodi bod 25 o ysgolion bellach wedi llwyddo i gyflawni'r marc ansawdd. Cyflawnodd 16 ysgol y wobwr aur a chyflawnodd 9 ysgol y wobwr blatinwm. At hynny, roedd 22 o ysgolion ychwanegol wedi mynegi diddordeb mawr, ac mae 12 ysgol yn mynd ati i gwblhau'r marc ansawdd yn 2021.

Nododd y swyddog fod gwella addysg y disgyblion hynny sy'n derbyn gofal yn parhau i fod yn uchelgais ond nododd y byddai angen i unrhyw strategaeth wella fod yn seiliedig ar arfer effeithiol wedi'i seilio ar ymchwil lle mae tystiolaeth glir o'r effaith. Rhoddwyd gwybod i Aelodau am bapur diweddar a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru - Dull integredig o wella canlyniadau addysgol i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, sy'n ystyried dulliau integredig awdurdodau lleol o gefnogi Plant sy'n Derbyng Gofal, Mae'n canolbwyntio'n benodol ar sut y gallai'r model Ysgol Rithwir yn Lloegr a'r Alban gael ei ddefnyddio fel sylfaen i awdurdodau lleol yng Nghymru hyrwyddo cyflawniad addysgol Plant sy'n Derbyng Gofal.

Esboniwyd i'r Bwrdd nad oes gan ysgol rithwir safle corfforol y mae modd i ddisgyblion ei fynychu. Yn lle hynny, mae'n 'ddull sefydliadol' y mae modd ei ddefnyddio i gydgyssylltu cymorth ar gyfer Plant sy'n Derbyng Gofal yn strategol ac ar lefel gweithredol, gan gynnwys y Plant hynny sy'n Derbyng Gofal mewn lleoliadau y tu allan i'r sir. Dysgodd yr Aelodau fod gan awdurdodau lleol yn Lloegr, o dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, ddyletswydd statudol i benodi Pennaeth Ysgol Rithwir (VSH). Rôl Pennaeth Ysgol Rithwir yw hyrwyddo cyflawniad addysgol Plant sy'n Derbyng Gofal sy'n wahanol i'r model yng Nghymru, yma y person allweddol sy'n cyflawni'r rôl hon yw'r Cydlynnydd Addysg Plant sy'n Derbyng Gofal.

Yn dilyn argymhelliad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i sefydlu Ysgolion Rhithwir, roedd yr holl Awdurdodau Lleol wedi bod yn rhan o drafodaeth i ystyried anghenion eu hardaloedd. Yng nghyd-destun RhCT, roedd swyddogion o'r farn y byddai cyflwyno pennaeth ysgol rithwir yn cynyddu capasiti yn yr awdurdod lleol mewn perthynas â chefnogi deilliannau addysgol ac yn darparu llais gwell i fod yn eiriolwr ar gyfer Plant sy'n Derbyng Gofal ar lefel uwch reolwyr mewn addysg, gan gryfhau'r rôl rhianta corfforaethol. Byddai'r rôl yn cefnogi

rhannu arfer da, yn cryfhau'r arferion cydweithio ac yn darparu cymorth rhagweithiol wedi'i dargedu yn ôl yr angen, a hynny ar gyfer disgyblion ar lefel unigol ac mewn grŵp.

Croesawodd yr Is-gadeirydd yr adroddiad a nododd mai'r peth cywir i'w wneud yw canolbwyntio ar gyrhaeddiad addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal, a oedd wedi bod yn her yn gyson. Pwysleisiodd yr Aelod bwysigrwydd addysg i bob disgybl ond roedd wedi cydnabod nad oedd yn cael ei ystyried yn aml oherwydd ystod eang o ffactorau eraill.

Roedd Aelod arall hefyd yn falch o nodi'r adroddiad a'r cynlluniau sydd ar waith i wella cyrhaeddiad addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal. Roedd yr Aelod wedi'i siomi o nodi nifer yr Hysbysiadau Cosb Benodedig sydd wedi'u cyflwyno a phwysleisiodd y dylai fod yn ddewis olaf. Y gobaith oedd y byddai hyfforddiant Ysgolion sy'n Ystyrlon o Blant sy'n Derbyn Gofal yn helpu gyda hyn.

Cafwyd trafodaethau ynghylch cynnig hyfforddiant Mathemateg neu Saesneg ar-lein i bob disgybl Cyfnod Allweddol 4 sy'n sefyll arholiadau, a oedd wedi'i sefydlu gydag arian PDG. Cytunodd yr Aelodau y byddai'n fuddiol i'r Bwrdd dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf eto yn y dyfodol gydag adborth o ran hyfforddiant. Pe bai'n llwyddiannus, y bwriad fyddai parhau i flaenoriaethu grant PDG ar gyfer y garfan y flwyddyn nesaf.

PENDERFYNODD yr Aelodau gydnabod y diweddariad.

25 Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru

Rhoddodd Ms C. Urch, Tros Gynnal Plant Cymru ddiweddariad chwarterol i'r Bwrdd o ran y cynnydd a gafodd ei wneud gan Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru.

Clywodd yr aelodau fod 35 o bobl ifanc wedi manteisio ar Eiriolaeth yn Seilledig ar Faterion yn ystod y chwarter, gan gyflwyno 38 o faterion; a chyfeiriwyd 17 o bobl ifanc eraill ar gyfer y Cynnig Gweithredol. Cynhaliwyd 14 cyfarfod Cynnig Gweithredol yn ystod y 5 diwrnod gwaith, gyda 12 person ifanc yn derbyn y cynnig o ran cefnogaeth ac yn symud ymlaen i Eiriolaeth yn Seilledig ar Faterion.

Nododd yr aelodau fod nifer y bobl ifanc a atgyfeiriwyd ar gyfer y Cynnig Gweithredol yn ystod y cyfnod wedi gostwng ers Chwarter 1 ond roedd sicrwydd bod Tros Gynnal Plant Cymru yn gweithio ar hyn.

Roedd yr Aelodau'n falch o nodi y bu cynnydd o 55% yn nifer y bobl ifanc a gafodd eu hatgyfeirio am gymorth eiriolaeth, cynnydd o 41% yn nifer yr atgyfeiriadau Cynnig Gweithredol a chynnydd o 65% yn nifer y materion eiriolaeth yn ystod y cyfnod.

Nodwyd bod cyfarfodydd wyneb yn wyneb wedi'u cynnal ar gyfer 4 o'r 35 o bobl ifanc a ddefnyddiodd y gwasanaeth tu hwnt i'r 5 diwrnod gwaith. Serch hynny, roedd yr Aelodau'n cydnabod pwysigrwydd cynnal asesiadau risg ar gyfer y bobl ifanc hynny a oedd yn dymuno cyfarfod wyneb yn wyneb â'r eiriolwyr, a bod rhaid cadw at ganllawiau hunanydsu mewn rhai achosion.

Yn flaenorol, roedd y Bwrdd wedi codi cwestiynau ynghylch ethnigrwydd y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac roedden nhw'n falch o nodi bod y gwasanaeth

yn symud i'r cyfeiriad cywir gyda chynnydd yn nifer y defnyddwyr ac Asiaidd.

Esboniwyd bod 10 o bobl ifainc wedi rhoi adborth gyda'u heiriolwr, a oedd yn gadarnhaol ar y cyfan. Nododd 7 ohonyn nhw y bydden nhw'n defnyddio'r gwasanaeth eto. Cafodd Aelodau wybod am yr anawsterau o ran ceisio adborth gan bobl ifainc ar ôl cwblhau'r gwasanaeth.

Rhoddwyd gwybod i Aelodau bod Tros Gynnal Plant wedi sicrhau cyllid ar gyfer prosiect cyfranogwr a bod un cyfranogwr yn dod o RCT.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i elusen Tros Gynnal Plant am yr adroddiad cadarnhaol ac roedd yn falch o nodi bod cynnydd wedi bod yn nifer y bobl ifainc sy'n manteisio ar y Cynnig Gweithredol. Nododd y Cadeirydd y byddai wedi hoffi gweld mwy nag un cyfranogwr ifanc o RCT yn cymryd rhan yn y prosiect newydd ond roedd yn edrych ymlaen at glywed yr adborth.

PENDERFYNODD yr Aelodau gydnabod y diweddariad.

26 'Drws Ffrynt' Maethu Rhanbarthol Cwm Taf

Rhoddodd y Rheolwr Datblygu Rhanbarthol ddiweddariad i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o ran recriwtio a chadw rhieni maeth, gan ganolbwyntio ar y drws ffrynt rhanbarthol ar gyfer recriwtio rhieni maeth.

Sefydlwyd y Drws Ffrynt Rhanbarthol ar gyfer recriwtio rhieni maeth ym mis Ebrill 2019 fel cynllun ar y cyd rhwng Cynghorau RhCT a Merthyr Tudful i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon ynghylch nifer y rhieni maeth a gafodd eu recriwtio, pa mor gyflym oedd yr ymatebion i ymholiadau ac ansawdd y gwaith recriwtio sy'n cael ei wneud. Prif amcan y garfan oedd sicrhau cynnydd clir mewn perthynas â rhieni maeth prif ffrwd cymeradwy.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at Adran 4 yr adroddiad, lle roedd manylion y Data Cyflawniad ar gyfer y flwyddyn. Nododd y swyddog fod gostyngiad yn nifer yr ymholiadau yn y tri chwarter cyntaf o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae modd priodoli hyn i effaith pandemig Covid-19. Serch hynny, tawelwyd meddyliau'r Aelodau trwy nodi bod strategaeth wedi'i haddasu ers hynny, ac mae swyddogion bellach yn gweithio'n llwyddiannus mewn modd rhithwir.

Roedd yr Aelodau'n falch o nodi bod y gyfradd drosi o'r Ymholiad Cychwynnol i broses sgrinio'r Ymweliad Cychwynnol cyn yr asesiad wedi cynyddu o 26.3% i 40.9% o'i chymharu â'r ffigurau yn 2019/20. Roedd y gyfradd drosi o'r ymholiad cychwynnol hyd at gynnal asesiad llawn wedi cynyddu o 13.2% i 17.2% o'i chymharu â'r ffigurau o 2019/20.

Rhoddodd y Swyddog wybod i Aelodau am y datblygiadau yn y dyfodol sydd i fod i wella'r gwasanaeth cadarn ymhellach:

- Roedd strategaeth recriwtio a marchnata gynhwysfawr wedi cael ei sefydlu, gan gynnwys cyflwyno rhagor o hysbysebion â thâl ar Facebook, defnyddio ymgyrch 'Digi-fan' a llunio rhagor o astudiaethau achos gan rieni maeth presennol, a hynny er mwyn ennyn sylw a diddordeb mewn maethu;
- Bwriad i gynyddu capasiti asesu ymhellach, yn dilyn penodi Uwch Ymarferydd y Garfan Lleoli yn ddiweddar;

- Ar ôl sefydlu'r broses ar gyfer asesiadau yn ystod pandemig Covid-19, y gobaith oedd y byddai gwelliant parhaus yn nifer yr ymgeiswyr sy'n symud ymlaen o gam yr ymholiad i'r asesiad; a
- Cryfhau'r gronfa adnoddau ymhellach, pan ddisgwylir i Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr ymuno â'r Drws Ffrynt Rhanbarthol ym mis Ebrill 2021.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r swyddog am yr adroddiad cadarnhaol ac er gwaethaf heriau'r pandemig, roedd yn falch o nodi, fel sydd wedi digwydd mewn llawer o feysydd eraill y Gwasanaethau i Blant, fod swyddogion wedi addasu'n dda i weithio mewn modd rhithwir a bod amserlenni wedi gostwng yn sylweddol o'r ymholiad i'r Ymweliad Cychwynol (IV).

Roedd gan y Cadeirydd ddiddordeb mewn nodi'r ymgyrchoedd marchnata ar gyfer 2020/21 a nodwyd yn yr adroddiad a gofynnodd bod y Bwrdd yn derbyn adroddiad yn y dyfodol sy'n nodi manylion yr effaith a gwelliannau posibl ar ffigurau.

Cafodd yr Aelodau eu hannog i nodi, er gwaethaf y cyfyngiadau symud cenedlaethol ym mis Tachwedd 2020 yng Nghymru, fod ymholiadau wedi cynyddu'n sylweddol o gymharu â'r rhai yn yr un chwarter y flwyddyn ddiwethaf.

PENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol nodi'r diweddariad.

27

Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Mabwysiadu Cydweithredol y Fro, y Cymoedd, a Chaerdydd

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau i Blant, Adroddiad Blynyddol y Cydweithrediad Mabwysiadu Rhanbarthol i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol. Trafodwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2021.

Cafodd Aelodau wybod y bu gostyngiad yn y galw o ran mabwysiadu ledled Cymru yn ystod y flwyddyn, a gostyngiad o 34% yn ardaloedd y Fro, y Cymoedd, a Chaerdydd (VVC). Serch hynny, rhoddwyd sicrwydd iddyn nhw y bu cynnydd dilynol yn y galw yn ystod 3 chwarter cyntaf 2020/21.

Er y bu cynnydd o 35% yn nifer yr unigolion sy'n mabwysiadu yn ystod y flwyddyn, esboniwyd bod y nifer yn parhau i fod yn annigonol ac felly byddai hyn yn parhau i gael sylw yn ystod y flwyddyn i ddod.

Roedd yr Aelodau'n falch o nodi y bu gwelliant o ran darpariaeth Gwaith Taith Bywyd, o 44% i 60% yn ystod y flwyddyn.

Er mwyn bod yn glir, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod i'r Bwrdd am y sylwadau canlynol gan y Pwyllgor Craffu, a hynny ar ôl i Reolwr Mabwysiadu Rhanbarthol Cydweithrediad y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd fynychu cyfarfod:

- Y gostyngiad yn y galw am fabwysiadu yn RhCT yn ystod y flwyddyn;
- Recriwtio unigolion sy'n mabwysiadu;
- Plant sy'n destun atgyfeiriad i'r Cydweithrediad Mabwysiadu Rhanbarthol nad ydyn nhw'n mynd ymlaen i gael cynllun ar gyfer mabwysiadu (achosion a dynnwyd yn ôl);
- Trefniadau gweithredol, a'r effaith ar gyfer Cydweithrediad Mabwysiadu Rhanbarthol a'i wasanaethau yn ystod y pandemig; a
- Trefniadau ar gyfer cefnogaeth ar ôl mabwysiadu.

Wrth gydnabod y materion sydd wedi codi o ran recriwtio a chadw a chynnwys Pen-y-bont ar Ogwr yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg, cwestiynodd un Aelod a oedd cyfle i adolygu'r trefniadau Rhanbarthol. Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai angen i'r Gweinidogion wneud unrhyw newidiadau ond y byddai RhCT yn rhan o'r sgwrs, pe bai'r cyfle i adolygu'r trefniadau yn codi.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth am y diweddariad cynhwysfawr a **PHENDERFYNODD** yr Aelodau gydnabod y diweddariad.

28 Adroddiad y Swyddog Adolygu Annibynnol

Rhannodd Rheolwr y Garfan Adolygu wybodaeth â'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ynghylch cyflawni swyddogaethau'r Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO) mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Rhagfyr 2020. Roedd Aelodau'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol eisoes yn gyfarwydd â rôl y Swyddog ar ôl gweld adroddiadau blaenorol. Cafodd y cyd-destun ei atodi yn Atodiad 1 yr adroddiad er gwybodaeth.

Cafodd yr Aelodau wybod bod gan y Gwasanaeth Adolygu 12 Swyddog Adolygu Annibynnol llawn amser, a hynny ar ôl penodi Rheolwr Gwasanaeth parhaol yn llwyddiannus.

Nododd y swyddog bod cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal wedi amrywio rhwng 700 a 716 yn ystod y cyfnod (Chwarter 2, 3 a 4). Roedd hyn yn ostyngiad o ran niferoedd cyffredinol o gymharu â'r cyfnod adrodd blaenorol.

Cafodd Aelodau gyfle i weld data PDG ar gyfer y cyfnod hyd at 31/12/20:

- Roedd nifer uchaf y PDG yn y grŵp oedran 10-15 oed, ac roedd y grŵp yma'n cynrychioli'r ganran uchaf yn gyson;
- Cafodd 33% o blant eu lleoli gyda chynhalwyr sy'n berthynas; a
- Roedd 70% o BDG yn byw yn RhCT, roedd 211 o blant mewn lleoliadau y tu allan i RCT ac o'r rhain, roedd 11 yn byw y tu allan i Gymru.

Esboniwyd y bu 1,382 o gyfarfodydd adolygu PDG yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Mawrth 2020, a chyflawniad Adolygiadau PDG ar ddiwedd mis Rhagfyr 2020 oedd 97%. Roedd y Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi cadeirio 11 o Adolygiadau PDG a Chynadleddau Adolygu ar y cyd i dynnu enwau plant sy'n derbyn gofal sy'n destun Gorchmynion Gofal oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

O ran goblygiadau pandemig Covid-19 ac er gwaethaf y pwysau, roedd y swyddog wedi pwysleisio fod swyddogion wedi parhau i flaenoriaethu ac ymgysylltu â phobl ifainc a'u teuluoedd mewn modd rhithwir. Cafodd Aelodau wybod bod nifer y rhieni a gymerodd ran mewn cyfarfodydd rhithwir yn gadarnhaol. Fodd bynnag, roedd hi'n haws i bobl ifainc wrthod neu beidio â chymryd rhan gan ddefnyddio dull rhithwir. Gyda rhagor o bobl yn cael y brechlyn a chyfyngiadau'n cael eu llacio o bosibl, roedd y swyddog yn gobeithio y byddai modd cynnal cyfarfodydd yn y dyfodol. Byddai hanner y cyfarfodydd yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb a'r hanner arall trwy ddull rhithwir. Byddai hyn yn caniatáu i'r rhai sy'n dymuno cwrdd wyneb yn wyneb wneud hynny gan leihau'r amser teithio i swyddogion.

Er gwaethaf y nifer uchel o BDG, nodwyd bod penodi Swyddogion Adolygu Annibynnol yn ddiweddar wedi sicrhau bod gan bob Plentyn sy'n Derbyn Gofal Swyddog Adolygu Annibynnol.

Cyfeiriodd y swyddog yr Aelodau at Adran 9 yr adroddiad, lle mae gwaith datblygu allweddol y gwasanaeth yn cael ei amlinellu. Rhoddwyd gwybodaeth i'r Aelodau mewn perthynas â dogfennau ymgynghori, gwefan 2Sides, a'r 'Orb and Muse'.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r swyddog am yr adroddiad manwl a gwnaeth sylwadau ar bwysigrwydd defnyddio Arolwg Bright Spots ac ymgymryd â gwaith ymgysylltu â'r bobl ifainc i sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed.

PENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol nodi'r diweddariad.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.05 am

**Y Cynghorydd C Leyshon
Cadeirydd.**